

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
19 MEDI 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Craffu a Throsolwg yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mercher, 19 Medi 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, Veronica Gay, Joe Johnson, Colin Legg, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr David Evans a Dave Hughes. Derek Butler, Aelod y Cabinet dros Ddatblygiad Economaidd.

DIRPRWYON: Cynghorydd: Ted Palmer (ar gyfer Cindy Hinds)

HEFYD YN BRESENNOL:

Cynghorwyr: Helen Brown, Rosetta Dolphin, Patrick Heesom, Christine Jones, Brian Lloyd, a David Wisinger (fel sylwedyddion)

CYFRANOGWYR: Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod y Cabinet dros Strydlun a Chefn Gwlad, Cynghorydd Chris Bithell, Aelod y Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Strategaeth Priffyrdd. (Ar gyfer cofnod rhif 16) Nick Thomas, Rheolwr Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru.

YN Y CYFARFOD: Hwyluswr a Swyddog Craffu a Throsolwg yr Amgylchedd y Pwyllgor

14. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni dderbyniwyd unrhyw rai.

15. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mehefin a 12 Gorffennaf 2018.

PENDERFYNWYD:

Y byddai'r cofnodion yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir ac yn cael eu llofnodi gan y Cadeirydd.

16. CYFOETH NATURIOL CYMRU

Cyflwynodd y Cadeirydd Mr Nick Thomas, Rheolwr Gweithrediadau Gogledd-ddwyrain Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, i'r cyfarfod a'i wahodd i roi cyflwyniad ar y gwaith sy'n cael ei wneud yn awr gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Diolchodd Mr. Thomas i'r Pwyllgor am y cyfle i roi amlinelliad o waith CNC. Dywedodd bod CNC wedi'i sefydlu yn 2013 a'u bod yn gyfrifol am waith Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, y Comisiwn Coedwigaeth a rhai o ddyletswyddau Llywodraeth Cymru. CNC yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, gyda 1750 aelod o staff a chyllideb flynyddol o tua £170 miliwn. Ei ddiben yw rheoli cyfoeth naturiol mewn dulliau cynaliadwy. Aeth Mr. Thomas ymlaen i roi cyflwyniad a oedd yn cwmpasu'r prif bwyntiau canlynol:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – sut y byddwn yn cyflawni
- Egwyddorion Deddf yr Amgylchedd
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir y Fflint
- Asesiad o Lesiant ar gyfer Sir y Fflint
- Rheoleiddio gwastraff
- Rheoleiddio diwydiant
- Prosiect cyfarwydddeb fframwaith dŵr Afon Alun
- amaethyddiaeth
- Aber Afon Dyfrdwy
- mynediad, hamdden, iechyd
- newid yn yr hinsawdd
- ymateb i ddigwyddiadau
- rheoli'r risg o lifogydd
- cadwraeth

Diolchodd y Cadeirydd i Nick Thomas am ei gyflwyniad ac estynnodd wahoddiad i Aelodau godi cwestiynau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at y mater o dipio anghyfreithlon a gofynnodd a oedd unrhyw ddiogelwch o amgylchedd safleoedd chwareli. Esboniodd Mr Thomas mai perchnogion chwareli oedd yn gyfrifol am reoli diogelwch ar eu safleoedd. Disgrifiodd y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â chlirio tir gwastraff a oedd wedi'u storio heb drwydded neu esemptiad a chanlyniadau cyfreithiol diffyg cydymffurfiaeth. Fe anogodd yr Aelodau i roi gwybod i CNC am unrhyw ddigwyddiadau neu bryderon o ran rheoli neu dipio/storio gwastraff yn anghyfreithlon.

Yn ystod y drafodaeth cododd yr Aelodau nifer o bryderon ynglŷn â gallu'r system garthffosiaeth i ymdopi â'r galw cynyddol o ganlyniad i ddatblygiadau tai newydd ac yn y dyfodol yn Sir y Fflint. Cyfeiriodd Mr Thomas at y gwaith a wnaed i arafu a dargyfeirio llif dŵr wyneb i'r system garthffosiaeth. Esboniodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) y byddai Dŵr Cymru yn gwneud asesiad o'i system garthffosiaeth i weld a allai ymdopi â'r galw ychwanegol y byddai unrhyw adeiladau newydd yn ei greu mewn ardal a, pe byddai angen, ni fyddai unrhyw ddatblygiadau pellach yn cael eu hadeiladu nes y byddai'r system garthffosiaeth wedi'i huwchraddio. Dywedodd y Prif Swyddog bod rhai datblygiadau yn Sir y Fflint 'wedi'u cloi' o ganlyniad i'r broses hon.

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at system ddraenio drefol gynaliadwy ar gyfer pob datblygiad o fwy na 18 annedd, gan wahanu dŵr budr a dŵr wyneb.

Mynegodd y Cynghorydd Veronica Gay bryderon ynglŷn â chynnal a chadw Balderton Brook, Saltney. Cytunodd Mr Thomas y byddai'n edrych ar y materion penodol a godwyd ar ôl y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth fe ymatebodd Mr. Thomas i gwestiynau a phryderon pellach a godwyd gan Aelodau am lwybr arfordir Cymru, Aber Afon Dyfrdwy, carthu, ac ymateb i ddiwyddiadau.

PENDERFYNWYD:

Y byddai'r cyflwyniad gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael ei nodi.

17. DIWEDDARIAD O GAM 2 ADOLYGIAD TERFYN CYFLYMDER

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) adroddiad i ddarparu diweddariad ar gynnydd yr Adolygiad o Derfynau Cyflymder ar draws y Sir gyfan.

Rhoddodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir ac esboniodd bod yr adroddiad yn ceisio diweddarau'r Pwyllgor ar y cynnydd a oedd wedi'i wneud hyd yma yn ogystal â darparu manylion nifer o heriau cyfreithiol yn erbyn y broses arfaethedig, sydd wedi'u goresgyn ers hynny. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio hysbysu'r Pwyllgor am yr amserlenni diwygiedig gyda chynnydd Gorchymyn Cyfunol Sengl sy'n cwmpasu'r rhwydwaith priffyrdd cyfan, ac esbonio'r cynigion hefyd er mwyn hwyluso ceisiadau aelodau a gefnogwyd gan feini prawf yr Adran Drafnidiaeth (DfT).

Cyfeiriodd y Prif Swyddog at y camau gweithredu allweddol a gynhaliwyd ac esboniodd, er mwyn diddymu'r orddibyniaeth ar Wasanaethau Cyfreithiol, roedd y swyddogion Strydlun a Thrafnidiaeth wedi datblygu system o dempledi cymeradwy a oedd wedi'u galluogi i gwblhau 'Gorchymyn Sengl' yn awr y byddai pob terfyn amser (y rhai presennol a'r rhai arfaethedig) yn cael eu hysbysebu. Roedd defnyddio'r dull diwygiedig hwn wedi symleiddio'r weithdrefn orgymhleth flaenorol o safoni'r broses ysgrifennu gorchymyn ar gyfer unrhyw sefyllfa.

Gofynnodd y Prif Swyddog i'r Rheolwr Strategaeth Priffyrdd adrodd ar yr ystyriaethau allweddol yn yr adroddiad ar y cynnydd o gyflawni'r adolygiad o derfynau cyflymder ar bob priffordd gyhoeddus. Dywedodd y Rheolwr Strategaeth Priffyrdd, yn dilyn y cynnig i hysbysebu'r 'Gorchymyn Sengl' drwy ddefnyddio map modern yn seiliedig ar amserlen, yr oedd swyddogion wedi cwblhau map yn awr yn seiliedig ar system sy'n cynnwys rhwydwaith priffyrdd y Sir lle'r oedd Llyfrau Mapiau unigol wedi'u creu. Roedd pob Llyfr Cyfeirio Map yn cynnwys system fynegeio glir a oedd yn galluogi aelodau'r cyhoedd i leoli ardaloedd o ddi-ddordeb yn uniongyrchol o fewn eu man preswyllo ac ar draws y Sir.

Dywedodd y Prif Swyddog, er bod cynnydd wedi'i wneud gyda'r Gorchymyn Cyfunol, ni fu heb ei heriau, fel y'u nodir yn yr adroddiad. Soniodd y Rheolwr Strategaeth Priffyrdd am yr heriau a dderbyniwyd o ran hysbysebu terfynau cyflymder 30mya a 60mya a chyfeiriodd at y ddeddfwriaeth genedlaethol o ran terfynau cyflymder a goleuadau stryd. Aeth ymlaen i esbonio, at ddibenion terfynau cyflymder, y gallai goleuadau stryd for ar sawl ffurf wahanol a'u bod yn

cynnwys colofnau goleuadau y mae'r Cyngor Sir yn berchen arnynt, Goleuadau Cymunedol a Goleuadau Llwybrau Cerdded. Er bod systemau mewnol yr Awdurdod yn cofnodi safle pob un o'r Colofnau Goleuadau Stryd y mae'r Cyngor Sir yn berchen arnynt ac y maent yn eu cynnal a'u cadw, ni fyddai'n cynnwys y gwahanol ddsbarthiadau o oleuadau a ddisgrifiwyd, ac roedd yn bwysig sicrhau bod safle cywir pob colofn goleuadau stryd yn hysbys (waeth pwy sy'n berchen arnynt) cyn penderfynu a fyddai terfyn cyflymder o 30mya neu 60mya yn arwain at wneud gorchymyn. Dywedodd y Rheolwr Strategaeth Priffyrdd bod arolwg mewnol manwl wedi'i gomisiynu'n fewnol er mwyn cofnodi'r nifer o oleuadau stryd ar derfynau cyflymder 60mya a 30mya (waeth pwy sy'n berchen arnynt) a disgwylir iddo gael ei gwblhau yn Hydref 2018. Ar ôl ei gwblhau, bydd swyddogion yn ail-edrych ar ddata i benderfynu pa derfynau cyflymder sy'n cael eu rheoleiddio 'yn ôl Goleuadau Stryd' a'r terfynau cyflymder hynny y bydd angen eu rheoleiddio gyda gorchymyn.

Dywedodd y Prif Swyddog, o ganlyniad i'r oedi oherwydd heriau cyfreithiol, yr oeddent yn rhagweld y byddai Gorchymyn Sengl yn cael ei hysbysebu ar ddechrau 2019. Ar ôl cwblhau'r broses statudol ofynnol, gellir cyfuno'r Gorchymyn Sengl a'r ceisiadau Aelodau, a oedd wedi'u cefnogi gan Feini Prawf DfT, gyda'r Adolygiad o Derfynau Cyflymder Cam 1 (a gwblhawyd ym mis Tachwedd 2016) a fyddai'n sicrhau na fyddai'r Cyngor yn meddu ar orchymyn sengl cyfunol a chydysyniol sy'n cwmpasu rhwydwaith priffyrdd y Sir. Pan fydd y Gorchymyn Cyfunol Sengl mewn grym, cynhelir adroddiad 5 mlynedd o'r holl derfynau cyflymder presennol yn y Sir (ac eithrio ardaloedd sydd eisoes wedi'u harchwilio o fewn ceisiadau Aelodau) er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Meini Prawf DfT gydag unrhyw ddiwygiadau'n cael eu gwneud drwy ddiwygiad i'r prif Orchymyn Cyfunol.

Diolchodd yr Aelodau i'r Prif Swyddog (Strydlun a Thrafnidiaeth) a'i dîm am eu gwaith ar yr adolygiad o derfynau cyflymder a'r rhwydwaith priffyrdd.

Yn ystod trafodaeth, fe ymatebodd swyddogion i'r cwestiynau a'r pryderon a godwyd gan yr Aelodau ynghylch gorfodi terfynau cyflymder a diogelwch ar ffyrdd gwledig a lonydd gwledig. Esboniodd y Prif Swyddog nad oedd gan yr Awdurdod y pŵer i orfodi terfynau cyflymder ond gallai ddarparu tystiolaeth olrhain i'r Heddlu pan fyddai angen. Mewn ymateb i'r cwestiwn ar ddiogelwch ar ffyrdd gwledig, dywedodd y Rheolwr Strategaeth Priffyrdd bod yn rhaid hysbysu'r Heddlu i ddechrau am ddamweiniau, cyn y gallai'r Awdurdod weithredu. Mewn ymateb i gwestiwn arall ar y gwrthwynebiadau i gynigion yr Awdurdod i hysbysebu a gweithredu terfynau cyflymder 30mya a 60mya, dywedodd y Prif Swyddog bod yr Awdurdod yn croesawu adborth ac yn gweithio'n gadarnhaol gyda gwrthwynebwyr er mwyn cyflawni'r nod cyffredinol o weithredu'r terfyn cyflymder cywir mewn ardal.

PENDERFYNWYD:

- (a) I nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma a'r heriau cyfreithiol a'r newidiadau dilynol yn y dull gweithredu a oedd wedi arwain at oedi yn y broses;
- (b) I gefnogi'r broses gyfreithiol ddiwygiedig er mwyn symud ymlaen i gyflawni Gorchymyn Cyfunol Sengl.

18. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd yr Hwyluswr Craffu a Throsolwg yr Amgylchedd y Flaenraglen Waith i'w hystyried.

Dyweddodd yr Hwyluswr y byddai gwybodaeth yn cael ei darparu ar y broses gorfodi amgylcheddol yng nghyfarfod y Pwyllgor i'w gynnal ar 27 Tachwedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Chris Dolphin i gymariaethau costau'r gweithdai cyllideb gael eu darparu ar gyfer Parc Treftadaeth Greenfield Valley a Pharc Wepre.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi y byddai pob arbediad portffolio yn destun gweithdy cyllideb. Cadarnhaodd yr hwyluswr y byddai'r dyddiad yn cael ei gyhoeddi maes o law.

Awgrymodd y Cynghorydd Paul Shotton y dylai'r Pwyllgor gynnal cyfarfod arall ym Mharc Wepre a chytunodd y Pwyllgor i hynny.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y byddai'r Flaenraglen Waith yn cael ei diwygio;
- (b) Y byddai'r Hwyluswr, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, yn cael ei awdurdodi i amrywio'r Flaenraglen Waith rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen.

19. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg a dim aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.03 pm)

.....
Cadeirydd